

Cofnodion Cyfarfod o'r Is Bwyllgor Cyllid Nos Fercher Mai 24^{ain} 2017

Ymddiheuriadau Jean Pierce Cynrig Hughes

Cadeirwyd gan Cyng Lowri James

Derbyn cofnodion cyfarfod Ebrill 26ain fel cofnodion cywir Dewi Jones yn cynnig a Bernard Jones yn eilio

BDO 2015 -16 Tra bod y clerc wedi trafod gryn dipyn a chynnig esboniadau ynglyn a'r naid yng ngwerth asedau 15-16 'roedd y mater yn dal heb ei ddatrys.

Serch hynny yn sgil derbyn ein cyfrifon am 2016-17 gan Gwmni Hughes Jones Dyson pwyntwyd allan na ddylai gwerth ased gael ei gynnwys yn y gwaraiant am y flwyddyn bertnasol **ac** yn y gwerth asedau dim ond yn y naill **neu** y llall.

Efallai mae hyn oedd yr esboniad cywir.

Clerc i gysylltu eto a BDO

Cyfrifon 2016-17 ar gyfer yr Archwilydd mewnol 02/06/2017.

Clerc wedi casglu popeth at ei gilydd yn barod i fynd a nhw i'r Archwilydd Mewnol erbyn yr 2ail o Fehefin

Adroddiad Ariannol

'Roedd mantolen ariannol wedi ei darparu yn dangos y incwm/gwariant i 26/04/17 oedd yn gadael £21,993.67 yn y cyfrif

Banc yn cadarnhau fod £22,570.94 yn y cyfrif wrth gau heno

Ceisiadau am nawdd (s. 137) (dim hyd yma)

Materion y Cynghorwyr

Trafodwyd edrych tuag at dderbyn cost ail-godi wal frics oedd wedi syrthio yng Nghoed y Maes ble nad oedd y Cyngor Sir na Dwr Cymru yn cymeryd cyfrifoldeb amdani ond oedd yn achosi anghyfleustra i'r trigolion lleol pan oedd aelodau o'r cyhoedd yn defnyddio y bwlch yn y wal fel man cyfleus i naill ai fynd ar neu oddiar y llwybr cyhoeddus oedd ochr arall i'r bwlch. Cytunwyd i gael cyfarfod ar y safle

Materion i'w talu –

Derbynwyd llythyr gan Llyr Ap Glyn am ad-daliad costau ffon 2016-17 £150.00

Talu Opus Energy £53.59 Trydan y swyddfa

Cyngor Gwynedd £641.60 NDR

D W Lewis £610 – 00 Torri gwair Mis Ebrill

D E Williams £600 – 00 Gosod Cysgodfan Treborth

Cwmni Ysw AON £1768-51 Yswiriant

Cytunwyd argymell eu talu i'r Cyngor Llawn

Daeth y cyfarfod i ben am 8.40